**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH-/3319/22

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Mark,

Rwyf wedi amgáu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (5ed Senedd) *Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – y stori hyd yma*. Mae hyn yn adeiladu ar ymateb gwreiddiol Llywodraeth Cymru a anfonwyd atoch ar 1 Hydref 2021, a'm diweddariad ar 25 Mai 2022.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Copi at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD A: Rhagfyr 2022 Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (5ed Senedd) *Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – y stori hyd yma*.**

Anfonwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr adroddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 1 Hydref 2021. Ar 25 Mai 2022, darparodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar ei chynnydd ar weithredu argymhellion yr adroddiad.

---

**ARGYMHELLIAD 1**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y gall ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio penderfyniadau cyllido mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023-24.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru:**

Mae gallu darparu cyllidebau tymor hwy ar gyfer ein partneriaid a'n rhanddeiliad yn dal i fod yn ddyhead gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn parhau'n agored i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer darparu sicrwydd pan fo hynny yn bosibl, fel y nodwyd yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddwyd ar y cyd â'n Cyllideb Ddrafft. Y llynedd, pennais Gyllideb amlflwyddyn hyd at 2024-25, er mwyn darparu sicrwydd i'n holl bartneriaid ac i roi'r sefydlogrwydd sydd ei ddirfawr angen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hir a fydd hefyd yn cael cryn effaith. Mae ein gallu i ddarparu sicrwydd ar gyfer y tymor hwy hefyd yn parhau i fod yn sylweddol ddibynnol ar gael setliad amlflwyddyn gan Lywodraeth y DU.

Ers y cytunwyd ar y Gyllideb a'r Adolygiad o Wariant amlflwyddyn hyd at 2024-25, mae'r cyd-destun economaidd wedi newid yn aruthrol ac, erbyn hyn, mae wedi gwaethygu'n sylweddol. Mae setliad Cymru dros gyfnod yr adolygiad o wariant tair blynedd (2022-23 hyd 2024-25) dal yn is mewn termau real nag y disgwyliwyd y llynedd. Mae effaith chwyddiant yn golygu y gallai ein setliad fod hyd at £3bn yn is mewn termau real a hyd at £1bn yn is y flwyddyn nesaf. Rydym yn wynebu penderfyniadau eithriadol o anodd wrth inni lunio ein Cyllideb sydd ar ddod.

Y realiti yw, heb ragor o gyllid gan Lywodraeth y DU, ni allwn ymgymryd ag unrhyw flaenoriaethau newydd. Mewn gwirionedd, bydd cynnal yr hyn yr ydym eisoes yn cynllunio ei wneud i ddarparu sicrwydd ariannol yn anhygoel o heriol. Tra bydd yr adnoddau sydd gennym yn gyfyngedig, gwarchod y rhai sydd fwyaf agored i niwed a chreu Cymru gryfach, decach a gwyrddach sy'n diogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol fydd ein blaenoriaeth.

Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i bledio'r achos i Lywodraeth y DU dros ddarparu cyllid ychwanegol i fodloni'r pwysau yr ydym yn eu hwynebu ynghyd ag ymrwymiad parhaus i gyhoeddi setliadau amlflwyddyn i ddarparu sicrwydd i'r llywodraethau datganoledig.

---

**ARGYMHELLIAD 2**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y caiff gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyllido. Dylai'r adolygiad ddechrau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiad nesaf y Senedd, a dylid gweithredu casgliadau'r adolygiad mewn pryd iddynt lywio dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Dylid cynnal yr adolygiad gan lynu at yr egwyddorion a ganlyn:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu cael mynediad at gronfeydd cyfun, wedi'u tynnu o adnoddau eu haelodau statudol, y gallent naill ai eu cadw fel endidau corfforaethol ffurfiol neu drwy drefniadau anffurfiol.
- Dylid penderfynu ar gyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ôl canllawiau clir a chyson wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru.
- Dylai cyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu llywio gan y rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gosod ar eu cyfer.
- Dylai'r cyfraniadau y mae'n ofynnol i bob sefydliad eu gwneud i gyllido Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydnabod yr ymrwymiadau ehangach sydd ganddynt i bartneriaethau eraill (gan gynnwys i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill).

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru:**

Mae adolygiad o gyllid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y gweill. Cafodd galwad am dystiolaeth oddi wrth Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gwblhau ym mis Hydref, gan ymchwilio i:

- Achosion o aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cronni cyllid ac adnoddau eraill i gyllido'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ac amcanion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Canlyniadau'r ymdrechion hyn, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd.

Gan ddefnyddio'r galwad am dystiolaeth fel y brif sylfaen dystiolaeth ar gyfer y broses hon, bydd swyddogion yn mynd ar drywydd ymholiadau pellach ac yn cyfweld â chydgysylltwyr a chadeiryddion i ymchwilio ymhellach. Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol â Chadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref i ystyried y trefniadau cydweithio a chafodd trefniadau ar gyfer cyllido ar y cyd eu trafod yn y cyfarfod hwnnw.

Yn y cyfamser, mae swyddogion yn ystyried yr hyblygrwydd sydd yng nghynlluniau grant presennol Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ymddangosiadol na gwirioneddol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu manteisio ar y cynlluniau hyn. Bwriedir darparu gwybodaeth a chymorth addas i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.

---

**ARGYMHELLIAD 6**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i adolygu a chyhoeddi dangosyddion llesiant cenedlaethol diwygiedig heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2021. Dylai'r adolygiad gydnabod yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y pandemig COVID-19 ac ystyried barn cyrff cyhoeddus, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru:**

Ar 29 Medi, cyhoeddwyd adroddiad Llesiant Cymru. Mae'r adroddiad yn ystyried y cynnydd yn erbyn yr 50 o ddangosyddion cenedlaethol, ochr yn ochr â data perthnasol eraill. Eleni, lluniwyd adroddiad neilltuedig ar lesiant plant a phobl ifanc i gyd-fynd â'r prif adroddiad. Cyhoeddwyd hefyd fersiwn hawdd ei deall o'r ddau adroddiad. Cafodd y gyfres o allbynnau sy'n cynnwys adroddiad Llesiant Cymru a dangosfwrdd y Dangosyddion Cenedlaethol statws Ystadegau Gwladol eleni. Golyga hyn eu bod, yn unol ag asesiad annibynnol, yn bodloni'r safonau uchaf o safbwynt dibynadwyaeth, ansawdd a gwerth.

Cafodd y cynnydd tuag at gyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol eu monitro am y tro cyntaf yn adroddiad Llesiant Cymru eleni. Bydd y gyfres o ddangosyddion cenedlaethol yn parhau i'n helpu i fesur cynnydd tuag at y saith nod llesiant a'n taith tuag at ddod yn Gymru wyrddach,

decach a mwy llwyddiannus. Mae'r dangosyddion wedi'u cynllunio i gynrychioli'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer Cymru, a'i phobl. Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol nac yn gamau gweithredu gan sefydliad unigol. Maent yn rhoi darlun cenedlaethol mwy cyfannol o'r hyn sy'n newid.

---

**ARGYMHELLIAD 7**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Dylid gweithredu canfyddiadau'r adolygiad hwnnw mewn digon o amser i unrhyw gyrff cyhoeddus sydd newydd eu hychwanegu dderbyn eu dyraniadau cyllid a'u llythyrau cylch gwaith cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Dylai'r adolygiad:

- ystyried yr effaith y byddai cynnwys/hepgor unrhyw gorff cyhoeddus penodol yn ei chael ar weithredu'r Ddeddf ar lefel genedlaethol;
- cydnabod y bydd cynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol yn arwain at ofynion adrodd, monitro ac archwilio ychwanegol ac y bydd hyn yn anochel yn arwain at oblygiadau ariannol/adnoddau;
- nodi'n glir ddisgwyliadau cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf yn ffurfiol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, a sut y bydd y disgwyliadau hynny'n cael eu monitro a'u gorfodi; a
- nodi'n glir y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran cynnwys/eithrio a'r broses neu'r amserlenni ar gyfer cychwyn adolygiadau yn y dyfodol.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru**

Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dod i ben. Roedd yr adolygiad hwn yn sail ar gyfer ymgynghoriad ar gynigion i ychwanegu wyth corff cyhoeddus Cymreig datganoledig i'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Trafnidiaeth Cymru, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw'r wyth corff hwnnw. Cafodd y rhain eu dewis oherwydd mai eu cylch gwaith neu eu swyddogaethau hwy sy'n cael yr effaith fwyaf ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, a dewiswyd hefyd y rhai sydd â'r swyddogaethau polisi strategol a chynllunio corfforaethol.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 20 Hydref ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi i lunio adroddiad cryno. Rydym yn cynnig y dylid cychwyn y ddyletswydd llesiant ar gyfer yr wyth corff hwn ym mis Ebrill 2023. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chyrff newydd a phresennol drwy sesiynau cyfnewid gwybodaeth, i rannu'r hyn a ddysgwyd i helpu cyrff newydd i baratoi'n effeithiol.

---

**ARGYMHELLIAD 9**

Ni chaiff Llywodraeth Cymru greu unrhyw bartneriaethau na strwythurau cydweithredol newydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau oni bai ei bod wedi archwilio'n llawn:

- a allai strwythurau partneriaeth presennol, yn hytrach, gyflawni'r swyddogaethau hynny;
- a allai'r strwythur newydd ddisodli'r rhai presennol;
- a all y swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes; ac

- ar ôl ymgynghori â chyrff cyhoeddus y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, a all y cyrff cyhoeddus hynny ddangos cefnogaeth i'r strwythurau newydd.

**ARGYMHELLIAD 10**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau nesaf y Senedd sy'n nodi:

- sut y mae gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, ochr yn ochr â strwythurau partneriaeth mawr eraill, yn rhyngweithio â'i gilydd o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gydag enghreifftiau o arfer da;
- pa hyblygrwydd sydd gan bartneriaethau i wneud penderfyniadau i drefnu eu hunain yn well ac yn fwy effeithlon;
- lle gall partneriaethau a sefydliadau weithredu i symleiddio neu gydgrynhoi'r strwythurau llywodraethu ac adrodd i leihau ailadrodd a dyblygu; a
- barn Llywodraeth Cymru ar dirwedd strwythurau partneriaeth dros y cyfnod adrodd nesaf (2020-25), gan gynnwys unrhyw gynigion i ddiddymu neu gydgrynhoi'r strwythurau hynny.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru (Argymhellion 9 a 10)**:

Mae ymarfer cynhwysfawr ar y gweill i ymgysylltu â chadeiryddion partneriaethau strategol. Diben y cyfarfodydd hyn yw deall ymdrechion lleol i symleiddio trefniadau partneriaeth. Bydd canlyniad yr adolygiad yn dystiolaeth a fyddai'n sylfaen gadarn ar gyfer llywio camau gweithredu yn y dyfodol. Yr egwyddor sylfaenol o hyd, fel yn achos argymhellion adroddiad yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol, yw y dylai newidiadau i drefniadau partneriaeth gael eu harwain yn lleol, ac ni ddylid eu gorfodi, a dylent gael eu llywio gan yr hyn sy'n gweithio orau ac yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a pherthnasoedd presennol.

Y meysydd allweddol yr ymchwilir iddynt yw:

a) Gweithgarwch a chynnydd o ran adolygu trefniadau partneriaeth;
b) Barn ar gyfleoedd a rhwystrau;
c) Yr opsiynau ar gyfer cyflymu'r cynnydd.

Gan fod y cam gweithredu hwn yn ymwneud ag ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i barhau i adolygu trefniadau partneriaethau rhanbarthol, mae'r ymarfer ymgysylltu hwn yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r Aelod Dynodedig ar gyfer Plaid Cymru. Mae'r Gweinidog a'r Aelod Dynodedig wedi cyfarfod â nifer o fyrddau, er enghraifft, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Cynllunio Ardal. Disgwylir i'r ymarfer gael ei gwblhau ddechrau'r flwyddyn newydd gan ddarparu argymhellion i Gyngor Partneriaeth Cymru eu hystyried yn ei gyfarfod yn y gwanwyn.